**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS
Y Llywydd
Cadeirydd Fforwm y Cadeiryddion

30 Ionawr 2025

Annwyl Lywydd

Cynrychiolaeth ar gyrff rhyngseneddol

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 7 Ionawr, a ystyriwyd gennym yn ein cyfarfod ar 13 Ionawr.

Wrth i'r Pwyllgor ystyried eich llythyr, mynegodd yr aelodau bryderon ynglŷn â'r diffyg tryloywder ynghylch y penderfyniad a wnaed gan Fforwm y Cadeiryddion, a gofynnwyd am ragor o eglurder ynghylch y rhesymeg dros y penderfyniadau hynny.

Mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad wedi arwain y trosolwg o strwythurau llywodraethu Cymru/y DU/yr UE ers dechrau'r Chweched Senedd. Y Pwyllgor hwnnw sy'n bennaf gyfrifol am archwilio trefniadau llywodraethu cyffredinol y berthynas rhwng y DU a'r UE a rôl Cymru ynddynt. Y gwaith mawr a fydd yn cael ei wneud yn y flwyddyn i ddod yw'r adolygiad o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu a bwriad Llywodraeth y DU i 'ailosod' y berthynas. Gan fod hyn yn rhan o waith y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, nid yw'n glir pam nad yw ei aelodau'n cael eu cynnwys yn y gwaith hwn.

O ganlyniad, roeddwn am dynnu eich sylw at y sylwadau gan aelodau'r pwyllgor ynghylch ai Fforwm y Cadeiryddion yw'r corff priodol ac felly'r corff cymwys yn y Senedd i wneud y penderfyniad terfynol o ran cynrychiolaeth y Senedd ar y Fforwm Rhyngseneddol a Chynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE.

Rydym o'r farn y gallai fod yn fuddiol adolygu'r prosesau dan sylw, yn enwedig o ystyried y newid i 96 aelod ar gyfer y Seithfed Senedd. Yn ein barn ni, byddai'n werth ystyried dull mwy cyson o enwebu Aelodau o'r Senedd i'r gwahanol gyrff rhyngseneddol sy'n bodoli.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir,

Mike Hedges

Mike Hedges
Cadeirydd